Gardd Gwenno

Awdur: Isla McGuckin
Darlunydd: Catalina Echeverri
Oed: 5-7
Fformat: Clawr meddal
Maint: 230 x 230mm
Pris: £7.99

Geiriau diddorol

Distaw
Breuddwydio
Cynilo
Clymog
Dychmygu
Cylchgronnau
Hadau
Anwybyddu
Addewid
Amyneddgar
Ceisio
Hudolus
Blin
Egin

Clawr

Dewch i drafod…

Beth sydd ar y clawr?

Mae nifer o eiriau ar y clawr, rhai ohonynt yw'r teitl (y teitl yw enw'r llyfr)

Beth yw enw awdur y stori?

Pwy yw'r dylunydd?

Pwy sy'n eistedd yn y llun?

Beth mae Gwenno yn gwneud tybed?

Dewch i ddarganfod…

Chwiliwch am lyfrau, catalogau, paentiadau a blodau go iawn.

Peintiwch ddarluniau o wahanol flodau fel border i ffotograff ohonnoch chi.

Gardd Gwenno Nodiadau Addysgu © 2023 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.

Tudalennau dwbl mewnol

Dewch i drafod…

Faint o wahanol flodau medrwch chi gweld?

Sawl un o'r blodau yma fedrwch chi eu cyfri? (gan bwyntio)

Dyma lle rydych yn gosod pwy sydd bia'r llyfr?

Beth welwch chi oddi tano?

Mae'r awdur a'r dylunydd wedi cyflwyno'r llyfr i'w plant.

Beth welwch chi ar y dudalen yma?

Dewch i ddarganfod…

Peintiwch neu ddarluniwch blodau gwahanol.

Crewch batrymau blodau sy'n ail-adrodd.

Crewch flodau o friciau gwahanol.

Sawl bricsen o bob lliw y gwnaethoch chi defnyddio?

Tudalen 4 a 5

Dewch i drafod…

Beth sy'n digwydd yma?

I ble mae Mam a Gwenno yn mynd tybed?

Pa amser yw hi?

Sut ydych chi'n gwybod?

Sawl gwahanol fath o oleuni a welwch chi yn y lluniau?

Dewch i ddarganfod…

Ceisiwch greu casgliad neu patrymlun o whanol fathau o oleuni a cheisiwch ddisgrifio sut maent yn ein helpu neu ein rhybuddio.



Tudalen 6 a 7

Dewch i drafod…

Sut fath o le yw'r tŷ yma?

Fuoch chi mewn tŷ crand tebyg i hwn?

Sawl person arall sy'n byw yn y tŷ? (edrychwch ar yr esgidiau)

Ym mha ystafell ydy Gwenno a'i mam – pa gliwiau sydd yno i'n helpu?

Dewch i ddarganfod…

Chwaraewch gêm 'ym mha ystafell', casglwch offer sy'n perthyn i wahanol ystafelloedd i'w dosbarthu i wahanol bentyrrau a cheisiwch eu henwi a beth yw eu rôl.

Tudalen 8 a 9

Dewch i drafod…

Disgrifiwch y tywydd yn y darlun yma.

Ydych chi'n gallu gweld Gwenno?

Sut mae Gwenno'n teimlo?

Ydych chi wedi teimlo fel yna? Pryd?

Gardd Gwenno Nodiadau Addysgu © 2023 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.

Dewch i ddarganfod…

Tynnwch luniau/peintiadau o ddiwrnod neu noson stormus gyda phaent tywyll neu golosg.

Tudalen 10 a 11

Dewch i drafod…

Pa fath o le yw eich man delfrydol?

Beth fyddai yno?

Ymhle fyddai'r lle?

Ydych chi'n cynilo arian?

Beth ydych am brynu?

Dewch i ddarganfod...

Crewch collage o'ch hoff le delfrydol a disgrifwch i rywun arall y lle yma.

Tudalen 12 a 13

Dewch i drafod…

Ble mae Gwenno nawr?

Beth allai fod yn y bag?

Ydy Gwenno'n hapus?

Sut gwyddoch sut mae Gwenno'n teimlo?

Dewch i ddarganfod…

Crewch ffan deimladau i'w defnyddio yn ystod gweithgareddau ac i ddweud wrth eraill sut rydych yn teimlo.

Tudalen 14 a 15

Dewch i drafod…

Ble mae Gwenno'n mynd yn y lluniau yma?

Beth mae Gwenno'n gwneud tu allan?

Beth ydych chi'n hoffi gwneud tu allan?

Mae Gwenno yn cicio, syllu/edrych, cydbwyso.. beth arall gallwn wneud y tu allan?

Dewch i ddarganfod…

Ewch allan i wneud gwahanol weithgareddau a chwarae gemau.

Casglwch ddeunyddiau naturiol i greu rhifau o 0 – 10.

Gardd Gwenno Nodiadau Addysgu © 2023 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.

Tudalen 16 a 17

Dewch i drafod…

Mae Gwenno'n hongian ei chot – da iawn Gwenno!

Mae hi'n amser swper i Mam a Gwenno, beth mae nhw'n cael i fwyta?

Beth arall welwch chi ar y bwrdd?

Dewch i ddarganfod…

Crewch gylch diwrnod ar blat papur gwyneb cloc, gan osod y gwahanol brydau bwyd a'r gweithgareddau fyddwch yn ei wneud bob awr.

Tudalen 18 a 19

Dewch i drafod…

Beth welwch chi ar y tudalennau yma?

Beth mae Gwenno'n ei wneud?

Sawl pot mae Gwenno wedi'u lenwi?

Beth yw lliwiau'r potiau?

Beth arall sydd angen ar blanhigion dyfu?

Welwch chi'r falwoden?

Dewch i ddarganfod…

Plannwch hadau a gwyliwch nhw'n tyfu.

Crewch flodau o ddeunyddiau ail-gylchu a rhowch nhw mewn potiau jam.

Trefnwch botiau plannu o'r lleiaf i'r mwyaf.



Tudalen 20 a 21

Dewch i drafod…

Disgwyliodd Gwenno i'r hadau dyfu.

Pa mor hir fuodd hi'n disgwyl?

Ydych chi'n hoffi disgwyl?

Ydych chi wedi aros am sbel i rywbeth ddod neu i ddigwydd?

Dewch i ddarganfod…

Chwaraewch gemau – tra ein bod yn disgwyl cyn y weithgaredd nesaf. Rwy'n gweld a'm llygaid bach i…

Tudalen 22 a 23

Dewch i drafod…

Ydych chi'n gobeithio neu'n ysu am rywbeth?

Beth? Pam ei fod yn bwysig i chi?

Nid oedd Gwenno'n hapus iawn – beth gallem wneud i'w helpu i deimlo'n well tybed?

Gardd Gwenno Nodiadau Addysgu © 2023 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.

Dewch i ddarganfod…

Gwnewch restr o deimladau a sut gallwch wneud..

Pan rwy'n drist gallaf…i deimlo'n well.

Pan rwyf yn grac/ yn flin gallaf…i deimlo'n llai gwyllt.

Tudalen 24 a 25

Dewch i drafod…

Welwch chi Gwenno yn gweiddi ar y cymylau?

Pam ei bod yn gwneud hynny?

Ydych chi wedi teimlo'n grac iawn? Pryd?

Sut wnaethoch deimlo'n well?

Dewch i ddarganfod…

Edrychwch ar luniau o uwchben yr ysgol, eich tŷ neu eich cymuned – a ydych yn medru adnabod beth sydd yno.

Tudalen 26 a 27

Dewch i drafod…

Beth sy'n digwydd yma?

Mae nhw'n llenwi'r car – i ble mae nhw'n mynd tybed?

Ydych chi'n cofio'r llun gwnaeth Gwenno ei greu?

Dewch i ddarganfod…

Tynnwch ddarlun o'ch cartref chi neu rhywle sy'n bwysig i chi.

Symudwch pethau o un man i'r llall mewn gwahanol ffyrdd, codi, tynnu, gwthio ac yn y blaen.

Tudalen 28 a 29

Dewch i drafod…

Ble mae'r teulu nawr?

Ai'r tŷ newydd yw hwn?

Beth sydd angen iddynt wneud er mwyn ymgartrefu?

Dewch i ddarganfod…

Dychmygwch eich bod yn symut tŷ neu symud ystafell yn yr ysgol – beth fyddai angen arnoch chi er mwyn teimlo'n gyfforddus?

Tudalen 30 a 31

Dewch i drafod…

Mae Gwenno'n syllu ar rywbeth – beth mae hi wedi'i weld?

Mae'r planhigyn wedi egino!

S'gwn i sut mae Gwenno'n teimlo nawr?

Gardd Gwenno Nodiadau Addysgu © 2023 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.

Dewch i ddarganfod…

Symudwch fel planhigyn gan ddechrau fel hedyn, yna egino a thyfu i fod yn blanhigyn tal gyda blodyn ar ei gopa.

Tudalen 32 a 33

Dewch i drafod…

Edrychwch ar blanhigion Gwenno!

Beth sydd wedi digwydd?

Pa un yw eich hoff flodyn?

Beth mae Mam yn ei wneud?

Dewch i ddarganfod…

Edrychwch ar flodau drwy chwyddwydr – pa siapiau welwch chi, disgrifiwch y petalau a'r dail.

Tudalen 34 a 35

Dewch i drafod…

Mae rhywun wedi dod i alw?

Beth welwch chi yn yr ystafell nawr?

Sut mae Gwenno yn teimlo?

Dewch i ddarganfod…

Crewch daflen neu proffil un dudalen gan osod pethau rydych y neu hoffi / ddim y neu hoffi, yn eich gwneud yn hapus, yn drist, yn gynhyrfus ac yn flin.



Tudalennau dwbl mewnol cefn

Dewch i drafod…

Dewch i adnabod yr awdur a'r dylunydd yn well a dysgu am eu hanesion.

Clawr cefn

Dewch i drafod…

Trafodwch y wybodaeth sydd ar glawr cefn y llyfr:

Y broliant, yr ISBN, pris y llyfr, cliciwc ar y côd QR.

Dewch i ddarganfod…

Crewch froliant ar gyfer y llyfr yma neu llyfr arall gan GRAFFEG a'u harddangos.

Gall y nodiadau hyn gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti. Nid yw Graffeg yn cymeradwyo gwefan(nau) or fath na'u cynnwys ac nid yw'n gyfrifol am gynnwys or fath ac nid yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cynnwys, cywirdeb neu ymarferoldeb gwefan(nau) o'r fath.

Gardd Gwenno Nodiadau Addysgu © 2023 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.